

Polisi Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd

Cwmpas a Diben y Polisi

Diben y polisi hwn yw darparu gwasanaeth gwybodaeth ac arweiniad diduedd cynhwysfawr sy'n sicrhau bod dysgwyr yn cael cymaint o gyfleoedd â phosib i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch rheoli eu dysgu gydol oes a'u datblygiad gyrfaol eu hunain bob tro y bydd cam newydd yn codi. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i gynyddu eu potensial i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch, astudiaeth bellach neu symud ymlaen i addysg uwch a/neu gyflogaeth fel y bo'n briodol i bob unigolyn.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr ni waeth beth fo'i ddull neu leoliad astudio.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff sydd â rôl sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm o fewn y coleg.

Datganiadau'r Polisi

Bydd y coleg yn cynnal ei bartneriaeth a'i berthynas â Gyrfa Cymru ac yn eu datblygu ymhellach. Caiff trefniadau ffurfiol ar gyfer gwasanaethau eu dogfennu mewn cytundebau partneriaeth a drafodir yn flynyddol gan Bennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr.

Bwriad rhaglen Gyrfaoedd a Phrofiad Gwaith Cysylltiedig ffurfiol y Coleg yw bodloni Safonau Cenedlaethol a darparu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y cyfleoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar gael. Ei nod yw cynorthwyo dysgwyr wrth wneud dewisiadau o ran gyrfa a chyflogaeth.

Egwyddorion

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y polisi hwn:

- Mae egwyddorion Gatsby yn rhan gynhenid o'r gwasanaeth a ddarperir gan arweiniad a chynghor gyrfaoedd, byd gwaith a phrofiad gwaith cysylltiedig ac maent yn ymgorffori wyth meincnod arfer orau.
- Tra yn y coleg bydd ein dysgwyr yn datblygu'r **sgiliau** trosglwyddadwy sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.
- Rhaid cefnogi ein dysgwyr i gyflawni eu potensial tra yn y Coleg, mewn amgylchedd lle mae eu **llesiant** yn cael ei gyflawni fel eu bod yn teimlo'n dda amdanynt eu hunain ac yn parchu eraill.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 21
Dyddiad Adolygu Nesaf	Gorffennaf 2024

- Mae ymrwymiad i ddulliau adferol yn sicrhau ein bod yn unioni niwed ac yn meithrin perthnasoedd.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Ddull "coleg cyfan" o ddatblygu'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w helpu i **ddatblygu** yn llwyddiannus drwy gydol eu bywydau
- Darparu amrywiaeth o fecanweithiau cymorth i ddiwallu anghenion dysgwyr.
- Mae gan bob dysgwr CAVC llawn amser a rhan-amser yr hawl i gael rhaglen a gwasanaethau effeithiol yn ymwneud â gyrfaedd a'r byd gwaith. Bydd y rhain yn ddiuedd, yn hyblyg, yn gyfredol, yn wybodus, yn gefnogol ac yn amserol a byddant yn cynnwys yr hawl i arweiniad a chymorth i ddysgwyr ar ôl y cwrs.
- Trefnu lleoliadau gwaith (wedi'u dilysu gan reoliadau cyrff dyfarnu).
- Sicrhau bod y Coleg yn cynnal ei achrediad Marc Gyrfa Cymru.
- Sicrhau bod y Coleg yn cynnal ac yn datblygu ei bartneriaeth a'i berthynas â Gyrfa Cymru.
- Sicrhau bod y coleg yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth yn ymwneud â gyrfaedd, cymorth ariannol a bywyd Coleg ar adegau priodol drwy gydol y flwyddyn.
- Darparu canllawiau a gwasanaethau lles i gleientiaid a all fod:
 - Yn ystyried ymuno ag un o raglenni'r coleg
 - Eisoes ar raglen astudio yn CAVC
 - Yn cwblhau rhaglen ac yn symud ymlaen i astudio pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth
- Cyflwyno'r Academi Yrfaoedd gan ddarparu cyfleuster siop un stop sydd wedi'i alinio'n strategol er mwyn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen arnynt ar gyfer dilyniant a chyflogaeth.
- Datblygu gwasanaeth cynhwysfawr a chydweithredol sy'n cydweithio'n agos â thiwtoriaid y cwrs i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i bob dysgwr:
 - Cynllunio gweithredu cychwynnol
 - Sgrinio derbyniadau a chanllawiau cychwynnol cyn y cwrs
 - Presenoldeb mewn digwyddiadau gwybodaeth, nosweithiau derbyn a nosweithiau agored
 - Gwasanaethau galw heibio ac apwyntiad
 - Gwaith grŵp
 - Tiwtorialau grŵp
 - Atgyfeiriadau'r swyddfa gyflogaeth a chwilio am swyddi
 - Cyfweiliadau unigol
 - Cyfweiliadau ffug
 - Adeiladwyr CV

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu	Gorffennaf
Diwethaf:	21
Dyddiad Adolygu Nesaf	Gorffennaf 2024

- Adeiladwyr UCAS
- ERASMUS

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Polisi a gweithdrefnau Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaeodd y Coleg yn cael eu gweithredu'n llawn a'u dilyn gan staff.
- Adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i'r maes hwn.

Bydd yr Uwch Grŵp Cynllunio yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r broses o gymhwyso'r gweithdrefnau, cefnogi staff i lynu wrth y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial ayyb yn cefnogi egwyddorion y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r Deon Gwella Ansawdd yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig yn gyfredol.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth neu ddrwgdeimlad.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'w cynnwys.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a'r GDPR.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Mynychu digwyddiadau CPD ar agweddau sy'n berthnasol i lwyddiant y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 21
Dyddiad Adolygu Nesaf	Gorffennaf 2024

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiynau sefydlu a thiwtorial i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Dilyn gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn, gan ddefnyddio cefnogaeth, hyfforddiant ac adnoddau yn benodol i sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.
- Rhoi adborth ar y polisi mewn grwpiau ffocws dysgwyr a thrwy gyfleoedd eraill.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Deddf Cydraddoldeb 2010

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Dim.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod law yn llaw â'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio mewn bywyd bob dydd.

Cyfeiriadau Polisiau Cysylltiedig

Polisi Derbyniadau
Addysgu a Dysgu
Polisi Tiwtorialau
Anghenion Dysgu Ychwanegol
Entrepreneuriaeth a Menter
Ansawdd
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Datblygiad Staff
Diogelu Data

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 21
Dyddiad Adolygu Nesaf	Gorffennaf 2024

Gweithdrefnau Cysylltiedig

Derbyniadau
Addysg Gysylltiedig â Gwaith
Entrepreneuriaeth a Menter
Datblygiad Staff
Ymweliadau Addysgol

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 3 blynedd.

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Dyddiad cymeradwyo:
01/07/2019

Cymeradwywyd gan: CQSA

Dyddiad adolygu:
01/07/2024

Rheolwr sy'n Gyfrifol: Deon Taith y
Dysgwr

Arweinydd Gweithredol:
Dirprwy Bennaeth

Hygyrch i Fyfyrrwyr: Ydy

Rhif Adolygiad:	2
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 21
Dyddiad Adolygu Nesaf	Gorffennaf 2024